# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees – Is-gadeirydd yn y Gadair<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRgS, Shaun James Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies a Richard OJones |

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dylan Rees. Etholwyd y Cynghorydd G O Jones yn Is-gadeirydd am y cyfarfode hwn yn unig.

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir: -

- 26 Medi, 2017, yn amodol ar newid ar Dudalen 5 o'r cofnodion fod y Cynghorydd Aled M Jones wedi dweud '.... *bod y polisi cyfredol yn caniatáu i'r Aelod Portffolio (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) a Swyddogion werthu unrhyw fân-ddaliadau'.*

  Mae angen newid yn y cofnodion hefyd, sef bod y Cynghorydd Aled M Jones wedi dweud nad oedd yn gwrthwynebu gwerthu mân-ddaliadau hyd at 20 erw ond bod angen cyfeirio pob un dros 20 erw i'r Cyngor llawn.

- 30 Hydref, 2017 (Arbennig)

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol: -

- Llongyfarchiadau i gystadleuwyr a oedd wedi mwynhau llwyddiant yn y Ffair Aeaf ym Maes Sioe Mona fis diwethaf a hefyd yn Llanfair-ym-Muallt yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a oedd wedi cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc yn Llandudno;
- Diolchodd i staff a defnyddwyr gwasanaeth Blaen y Coed a Gerddi Haulfre am addurno Coeden Nadolig y Cyngor Sir yn nerbynfa Cyswllt Môn;
- Roedd yn dymuno llongyfarch Mr. Fôn Williams ar ei benodiad diweddar yn Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd. Dymunai ddiolch i Mr Llyr Bryn Roberts am ei waith fel y Pennaeth Dros Dro ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd dros y misoedd diwethaf;
- Roedd yn dymuno llongyfarch Ms Shan Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Tai ar ei phenodiad yn Brif Weithredwr Grŵp Cynefin a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd;
- Dymunai ddiolch i holl staff y Cyngor Sir am eu gwaith yn ystod y llifogydd diweddar ar yr Ynys a mynegodd ei gydymdeimlad â'r trigolion a'r busnesau lleol yr effeithiwyd arnynt.

* * * *

Estynnwyd cydymdeimladau â theulu’r diweddar Mr Carl Sargeant AC.

Talodd y Cynghorydd J Arwel Roberts, fel Arweinydd y Grŵp Llafur, deyrnged i Mr Sargeant AC.

Estynnwyd cydymdeimlad ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu aelod o staff a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

## 4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 O'R CYFANSODDIAD

- Cyflwynwyd – y cwestiwn canlynol y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Peter S Rogers i Arweinydd y Cyngor: -

*“Fel ni i gyd, byddwch yn gwbl ymwybodol o’r dicter a’r pryder sy’n cael eu mynegi gan drethdalwyr Ynys Môn yn dilyn eich penderfyniad i gynyddu nifer yr Aelodau ar Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod hwn i 9 aelod.*

*Yn y cyfnod llym sydd ohoni, sut yn y byd fedrwch chi gyfiawnhau’r ffasiwn wariant?”*

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am y cynnydd yn aelodaeth Pwyllgor Gwaith yr Awdurdod hwn. Roedd hi’n dymuno ailadrodd na fydd y cynnydd yn aelodaeth y Pwyllgor Gwaith yn golygu unrhyw faich ariannol i'r awdurdod, dim ond cynyddu’r nifer ar y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Rogers nad yw'r Dirprwy Arweinydd yn hawlio ei lwfans ond gofynnodd, pe bai’r sefyllfa honno’n newid, a allai hynny olygu baich ariannol ar yr Awdurdod? Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n ymateb i'r mater penodol hwnnw petai'n codi. Gofynnodd y Cynghorydd Rogers ymhellach, gan fod y Rhaglen Ynys Ynni a datblygiadau ynni eraill yn bwysig i'r Awdurdod, pam nad oedd y Cyngor Sir wedi ei gynrychioli ar y Gweithdy Rhan-ddeiliaid ynghylch Targedau Ynni i Gymru a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor trwy nodi bod diffyg capasiti yn un o'r rhesymau dros beidio â mynychu'r Gweithdy Rhan-ddeiliaid yng Nghaerdydd, sy'n enghraifft o pam fod angen cynyddu nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Gwaith.

- Cyflwynwyd – y cwestiwn canlynol y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorwyr A M Jones a Bryan Owen i Arweinydd y Cyngor: -

  *“Yn dilyn y penderfyniad i roi’r gorau i’r broses dendro am y cytundeb gofal cartref, beth a faint ydy’r costau wedi bod i’r Cyngor?”*

  Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod y penderfyniad i wahodd tendrau mewn perthynas â'r gwasanaeth gofal cartref wedi ei wneud gan weinyddiaeth flaenorol y Cyngor. Dymunai diolch i aelodau'r Grwpiau Gwrthblaid am fynychu'r sesiynau i asesu'r tendrau a gafwyd. Gwnaed penderfyniad i roi’r gorau i’r broses dendro ac i ailystyried y mater gyda'r Awdurdod Iechyd. Yr unig gostau cysylltiedig i’r Awdurdod hwn a'r Awdurdod Iechyd o ran y broses hon oedd amser staff.

  Holodd y Cynghorydd Bryan Owen pam ei bod wedi cymryd tan y funud olaf i roi'r gorau i'r broses dendro pan oedd wedi cymryd tri diwrnod i gyfweld y cwmnïau a oedd wedi cyflwyno tendrau am y gwasanaethau gofal cartref. Gofynnodd am y costau a gafodd y cwmnïau hyn i baratoi tendr a mynychu'r cyfweliad yn y Cyngor a dywedodd y gallai'r Awdurdod wynebu ceisiadau am iawndal gan y cwmnïau dan sylw. Dywedodd fod yr Arweinydd wedi gwahanu'r Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwell cefnogaeth i'r ddau wasanaeth a holodd a fyddai'n mynd yn ôl at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ofyn am Aelod Portffolio arall ar y Pwyllgor Gwaith?

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ei bod hi, fel yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, bob amser wedi rhoi amser sylweddol i'r rôl honno. Dywedodd mai ei dyletswydd hi yw sicrhau bod yr Awdurdod hwn yn darparu'r gwasanaeth gorau posib i bobl Ynys Môn. Cadarnhaodd fod yr Awdurdod hwn a'r Gwasanaeth Iechyd o'r farn y dylid rhoi'r gorau i'r broses dendro er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn.

**5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – y Rhybuddion o Gynigiad isod gan: -

- **Y Cynghorydd Shaun Redmond**

*"Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar i symud i bolisi o amgylchedd gweithio Cymraeg iaith gyntaf a'r baich ariannol cysylltiedig â'r gwahaniaethu sydd ynghlwm â hynny, rwy'n cynnig, gan nad oes gan y Cyngor unrhyw fandad a gan nad ydynt wedi ceisio consensws yr etholaeth i newid y polisi o fod yn Bolisi o Ddwyieithrwydd, bod Aelodau yn :-*

*(a) Cadw'r amgylchedd gwaith a'r polisi dwyieithog tan y bydd mandad a chonsensws yn cael ei gytuno drwy refferendwm ymysg yr etholaeth;*
*(b) Derbyn y polisi o gyflogi'r ymgeiswyr mwyaf cymwys ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor beth bynnag eu hiaith gyntaf neu ddewis iaith o Gymraeg neu Saesneg;*
*(c) Derbyn y polisi o gyflogi pobl ifanc a thrigolion eraill ym Môn y mae eu hiaith gyntaf neu ddewis iaith yn Gymraeg neu Saesneg."*

Eiliodd y Cynghorydd Peter S Rogers y cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Redmond fod yr etholaeth wedi cysylltu ag ef yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Etholedig gyda sylwadau yn gofyn pam mae angen polisi o'r fath ar gyfer amgylchedd gwaith y Cyngor. Mae'r cyhoeddiad a wnaed ynghylch symud i'r polisi hwn wedi codi nifer o gwestiynau a phryderon yng nghymunedau Ynys Môn a dyna pam mae angen i bolisïau'r Cyngor fod yn agored a chael eu trafod yn gyhoeddus. Pwysleisiodd nad yw ei rybudd o gynigiad yn ymosodiad ar y Gymraeg a dywedodd ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol gyda dwy brif iaith ac 'roedd yn amheus ganddo a fyddai hynny byth yn newid os yw Ynys Môn am ffynnu. Pam fod rhaid newid polisi dwyieithog sydd wedi llwyddo i gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg am bolisi lle mae'n rhaid i weithwyr fod yn rhugl yn y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar i wneud eu gwaith? Gall staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gyflawni eu dyletswyddau yn y Gymraeg, sydd yn iawn felly, gan mai eu dewis hwy yw hynny ac ni ddylai neb eu hamddifadu o'r fath ryddid i ddewis. Roedd yn siŵr fod gan staff y parch mwyaf i'r rheiny y mae eu hiaith gyntaf yn wahanol a'u dewis nhw yw defnyddio'r iaith honno yn ôl eu rhyddid i ddewis. Dywedodd y Cynghorydd Redmond ymhellach y bydd y newid mewn polisi yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth staff. Dywedodd fod problem eisoes o ran recriwtio i swyddi y mae angen cymwysterau uchel iawn ar eu cyfer; gallai hyn gymhlethu'r broses recriwtio. Gofynnodd i'r Cyngor wrthod polisi'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng ngweinyddiaeth y Cyngor.

Amlinellodd yr Aelod Portffolio ar gyfer yr Iaith Gymraeg y polisi iaith Gymraeg a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ym mis Mai 2016 ac yna'r Safonau Iaith Gymraeg. Dywedodd fod y Cyngor, wrth fabwysiadu'r Polisi Iaith Gymraeg, wedi penderfynu hefyd i fabwysiadu'r gwelliant a ganlyn ym mharagraff 3.2.4 y polisi sy'n datgan '... mai nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith y Cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer cyfathrebu mewnol.' Er mwyn gwireddu hynny, mae'r Cyngor yn monitro cynnydd bob blwyddyn trwy gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y polisi Iaith Gymraeg. Mabwysiadwyd yr adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2017. Dywedodd yr Aelod Portffolio nad gorfodi staff i ddefnyddio'r Gymraeg i ddibenion gweinyddiaeth yw'r nod, ond yn hytrach eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Nododd mai'r Gwasanaeth Tai, ym mis Medi 2016, oedd y gwasanaeth cyntaf a ddewiswyd i weithio'n ddwys gyda'r Cydlynydd Iaith trwy sefydlu gwaelodlin o'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaeth. Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu gyda'r Tîm Rheoli ar gyfer y Gwasanaeth Tai er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Y bwriad yw gweithio gyda phob adran i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu hamgylchedd gwaith. Nododd mai polisi Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Roedd y prif faterion a godwyd fel a ganlyn: -

- Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen ei fod yn gwbl gefnogol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn yr Awdurdod a pholisi dwyieithrwydd y Cyngor. Roedd yn cefnogi cyfle cyfartal i bob un o drigolion yr ynys allu cystadlu am gyfleoedd gwaith yn y Cyngor gan ei fod yn ymddangos mai ychydig iawn o ymgeiswyr sy'n cystadlu am gyflogaeth ar hyn o bryd;
- Dywedodd y Cynghorydd A M Jones ei fod o'r farn y dylid annog defnyddio'r iaith Gymraeg yn hytrach na'i orfodi;
- Dywedodd y Cynghorydd R Ll Jones y byddai'n cefnogi sefydlu Panel i drafod y polisi iaith Gymraeg;
- Dywedodd y Cynghorydd R Meirion Jones fod y Cyngor eisoes yn glynu wrth y Polisi Iaith Gymraeg a'r Safonau Iaith Gymraeg. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ddiweddar. Nododd fod Grŵp Tasg Iaith wedi'i sefydlu o fewn y Cyngor ers blynyddoedd lawer ynghyd â Fforwm Iaith sy'n ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws yr Awdurdod. Nododd ymhellach fod yr agwedd tuag at yr iaith yn bwysig a bod y ffocws ar anogaeth yn hytrach na gorfodi.

Yn dilyn trafodaethau, cynigiodd y Cynghorydd R Ll Jones welliant i'r Cynigiad y dylid sefydlu Panel gydag aelodau etholedig i drafod defnyddio'r Gymraeg yn yr Awdurdod. Eiliodd y Cynghorydd Peter Rogers y cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Shaun Redmond y byddai'n tynnu ei Rybudd o Gynigiad yn ôl er mwyn caniatáu'r cynnig fel y nodir uchod. Dymunai bwysleisio eto nad oedd ei Rybudd o Gynigiad yn ymosodiad ar yr iaith Gymraeg. Roedd yn bryderus y byddai pobl nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, er eu bod efallai wedi ceisio dysgu'r iaith, yn cael eu hamddifadu o allu cystadlu am gyflogaeth o

fewn y Cyngor. Derbyniodd Aelodau'r Cyngor ei gynnig i dynnu'n ôl ei Rybudd o Gynigiad.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.4 y Cyfansoddiad, gwnaed cais gan y nifer ofynnol o aelodau am bleidlais gofnodedig ynghylch sefydlu'r Panel.

Roedd y bleidlais gofnodedig fel a ganlyn: -

- **Sefydlu Panel i drafod y defnydd o'r Gymraeg yn y Cyngor: -**

  **Y Cynghorwyr Aled M Jones, Eric W Jones, R Ll Jones, Peter S Rogers, Bryan Owen, Shaun Redmond.**
  **CYFANSWM 6**

- **Peidio â sefydlu Panel i drafod y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor:**

  **Y Cynghorwyr Richard A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes, Llinos M Huws, Carwyn Jones, Gwilym O Jones, R Meirion Jones, Margaret M Roberts, Vaughan Hughes, Alun Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts, Nicola Roberts, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.**
  **CYFANSWM 22**

  **Ni chafodd y cynigiad ei gario.**

- **Y Cynghorydd Aled Morris Jones**

  *"Rwy'n gwneud cais i'r Cyngor Sir chwifio baner y Deyrnas Unedig y tu allan i swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llangefni yn ddyddiol, ac nid ar ddyddiau penodol yn unig, ochr yn ochr â'r Ddraig Goch a baner y Cyngor."*

  Eiliodd y Cynghorydd Bryan Owen y cynigiad.

  Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod nifer o adeiladau dinesig ledled Gogledd Cymru a Chymru yn hedfan baner y Deyrnas Unedig bob dydd. Dywedodd fod hedfan baner y Deyrnas Unedig yn bwysig i nifer o bobl ar yr Ynys.

  Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen fod hedfan baner y Deyrnas Unedig yn atgoffâd teimladwy o'r aberth a wnaed gan bobl ifanc o Ynys Môn a Chymru yn ystod y Rhyfeloedd Mawr. Roedd yn cefnogi'r Rhybudd o Gynigiad fel arwydd o barch i'r rheini a gwympodd yn ystod y Rhyfeloedd Mawr.

  Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cyngor Sir wedi mabwysiadu Polisi Baneri ar 10 Medi, 2001 sy'n nodi'r dyddiadau penodol pan fydd baner yr Undeb yn hedfan. Cynigiodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn cadw at y Polisi hwnnw.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.4 y Cyfansoddiad, gwnaed cais gan y nifer ofynnol o aelodau am bleidlais gofnodedig ar y cynnig arfaethedig.

Roedd y bleidlais gofnodedig fel a ganlyn: -

- **Hedfan baner y Deyrnas Unedig y tu allan i Swyddfeydd y Cyngor Sir yn ddyddiol: -**

  **Y Cynghorwyr Aled M Jones, Eric W Jones, R Ll Jones, Peter S Rogers, Bryan Owen, Shaun Redmond.**
  **CYFANSWM 6**

- **Peidio â hedfan baner y Deyrnas Unedig y tu allan i Swyddfeydd y Cyngor Sir yn ddyddiol a glynu wrth y Polisi Baneri a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 10 Medi, 2001: -**

  **Y Cynghorwyr Richard A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes, Llinos M Huws, Carwyn Jones, Gwilym O Jones, R Meirion Jones, Margaret M Roberts, Vaughan Hughes, Alun Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts, Nicola Roberts, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.**
  **CYFANSWM 22**

**Ni chafodd y cynigiad ei gario.**

- **Y Cynghorydd Bryan Owen**

  *"O gofio'r effaith ddinistriol ar unigolion yn dilyn y llifogydd diweddar ar yr Ynys, a fyddai'r Cyngor yn cytuno i sefydlu cronfa cymorth brys i gynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt a blaenoriaethu gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd fel rhan o gyllideb 2018/19."*

Eiliodd y Cynghorydd Aled M Jones y cynigiad.

Dymunai'r Cynghorydd Bryan Owen ddiolch i'r Prif Weithredwr a staff y Cyngor am eu gwaith caled yn ystod y llifogydd diweddar ar yr Ynys. Dywedodd na fu unrhyw sôn am effeithiau'r llifogydd ar ardal Dwyran gyda rhai tai wedi eu difrodi'n sylweddol iawn. Dywedodd y Cynghorydd Owen mai un o'r rhesymau dros y llifogydd eithafol oedd diffyg glanhau a chynnal yr afonydd. Cyfeiriodd at y tirlithriad ar yr A545 rhwng Porthaethwy a Biwmares sydd wedi digwydd ddwywaith bellach mewn cyfnod byr a bod Biwmares yn gyrchfan twristiaeth bwysig i lawer o ymwelwyr i'r Ynys. Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen at y trafodaethau sy'n digwydd ynghylch cael trydedd croesfan dros Afon Menai ac y byddai'n llawer gwell cael uwchraddio'r ffordd rhwng Porthaethwy a Biwmares.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones ei fod o'r farn y gallai'r Cyngor ofyn am gymorth ariannol o'r Cynllun Bellwin sy'n rhoi cymorth ariannol brys i awdurdodau lleol.

Gofynnodd y Cynghorydd Shaun Redmond am adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu gweithgareddau carthu a glanhau afonydd. Ymatebodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff bod ffermwyr yn y gorffennol yn cael eu talu i glirio ffosydd ar y tir ond erbyn hyn maent yn cael eu gwahardd rhag gwneud hynny gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mynegodd ei farn fod angen carthu Afon Cefni fel mater o frys.

Dywedodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi gofyn i'r Ysgrifennydd ymchwilio a yw'n briodol i'r Ymddiriedolaeth sefydlu cronfa i roi cymorth i breswylwyr yr Ynys sydd wedi cael llifogydd yn eu cartrefi a'u busnesau yn ddiweddar.

Roedd y Cynghorydd Carwyn Jones hefyd yn dymuno diolch i staff y Cyngor, cwmni DAWNUS a MWT Construction Cyf. am eu gwaith yn ystod y llifogydd eithafol a gafwyd yn ddiweddar. Mae'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd ym Miwmares a gymeradwywyd gan y diweddar Mr Carl Sargeant AC wedi diogelu rhag llifogydd trychinebus posib yn nhref Biwmares. Bu tirlithriadau ar ffordd yr A545 o Borthaethwy i Fiwmares am y trydydd tro ac mae gwir angen uwchraddio'r briffordd hon. Ategodd y Cynghorydd R Meirion Jones y datganiad bod angen uwchraddio'r briffordd o Borthaethwy i Fiwmares. Gofynnodd hefyd i drigolion yr Ynys sydd wedi cael llifogydd anfon manylion am eu profiadau a'u colledion i'r Cyngor fel y gall yr Awdurdod gysylltu â Llywodraeth Cymru am gyllid i sicrhau na fydd llifogydd o'r fath yn digwydd eto.

Roedd Arweinydd y Cyngor hefyd yn dymuno diolch i staff y Cyngor am eu gwaith yn ystod cyfnod y llifogydd eithafol annisgwyl a gafwyd ar yr Ynys yn ddiweddar. Dywedodd fod angen i'r Cyngor barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Network Rail i archwilio'r rhesymau dros y llifogydd ac i gymryd camau i osgoi digwyddiad o'r fath eto.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers bod angen sefydlu cronfa yn y gyllideb nesaf i helpu pobl sydd wedi cael llifogydd a bod angen rhoi cynllun ar waith i sicrhau na fydd llifogydd o'r fath yn digwydd eto.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen, fel y cynigydd, nad oedd yn cytuno y dylai'r Ymddiriedolaeth Elusennol ystyried sefydlu cronfa i gynorthwyo trigolion sydd wedi cael llifogydd, am ei fod o'r farn mai mater i'r Cyngor yw delio â phroblemau llifogydd ac os mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ydyw mae angen i'r Cyngor fynd ar eu holau i ariannu mesurau i sicrhau nad yw llifogydd eithafol o'r fath a gafwyd yn ddiweddar yn digwydd eto a bod gwaith yn cael ei wneud i gynnal a chadw'r afonydd yn barhaus.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor ddiwygiad i'r Cynigiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Bryan Owen i ofyn i Swyddogion perthnasol y Cyngor barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Network Rail i ymchwilio i'r rhesymau dros y llifogydd eithafol ar yr Ynys a rhoi mesurau ar waith i osgoi llifogydd o'r fath eto a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r

Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd. Eiliodd y Dirprwy Arweinydd y cynnig.

Yn y bleidlais ddilynol cariwyd y gwelliant fel y cynigiwyd gan yr Arweinydd. Gyda chydsyniad y cyfarfod, ni wnaeth y Cynghorydd Bryan Owen fwrw ymlaen â'i  gynigiad gwreiddiol.

## 6. CYFLWYNO DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddeiseb ac arni dros 800 o lofnodion i Gadeirydd y Cyngor gan drigolion ardal Talwrn sy'n gwerthwynebu cau eu hysgol leol fel rhan o'r cynllun moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni.

Derbyniodd y Cadeirydd y ddeiseb a dywedodd y byddai'n ei hanon i sylw'r Pwyllgor perthnasol i'w thrafod.

## 7. PENODI AELOD LLEYG O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gadeirydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â phenodi Aelod Annibynnol cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau.

Anerchwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd R Meirion Jones sy'n Aelod o Banel Dewis y Pwyllgor Safonau a dywedodd fod gan y Pwyllgor Safonau sedd wag achlysurol ar hyn o bryd ar gyfer Aelod Annibynnol. Nododd y cynhaliwyd proses recriwtio yn ddiweddar fel y nodwyd yn yr adroddiad. Yng nghyfarfod y Panel Dewis a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2017 cytunodd y Panel i enwebu Mr John Robert Jones i rôl aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol sydd bellach wedi dod i law ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Cynghorydd A M Jones y byddai'n ymatal rhag pleidleisio ar y mater hwn gan nad oes aelod o Grŵp yr Wrthblaid ar y Pwyllgor Safonau. Dywedodd y bu cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor Safonau o blith y Grwp sy'n Rheoli a'r Gwrthbleidiau yng nghyfnod gweinyddiaeth flaenorol y Cyngor hwn.

Ymataliodd y Cynghorwyr Aled M Jones, Eric W Jones, Bryan Owen, Peter S Rogers a Shaun Redmond rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Penodi Mr John Robert Jones yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, i ddod i rym yn syth;**
- **Petai sedd wag achlysurol arall am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi'n awtomatig Ms Sarah Laing Gibbens i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd hon yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.**

**8. PENODI DAU GYNGHORYDD CYMUNED I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas ag enwebu Cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

Anerchodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas y cyfarfod a nododd bod y Pwyllgor Safonau'n cynnwys dau Gynghorydd Cymuned, sy'n cymryd rhan ym musnes cyffredinol y Pwyllgor ac sydd ond yn delio ag atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig pan fo'r materion hynny'n ymwneud â Chynghorwyr Cymuned. Mae gofyn i'r Aelodau Cyngor Cymuned gael eu henwebu ar y cyd gan yr holl Gynghorau Cymuned ar ôl pob etholiad llywodraeth leol.

Dywedodd y Cynghorydd A M Jones y byddai'n ymatal rhag pleidleisio ar y mater hwn gan nad oes aelod o Grŵp yr Wrthblaid ar y Pwyllgor Safonau ac am ei fod o'r farn fod y Grŵp wedi cael ei ddifreinio o'r broses.

Gofynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts i'r Swyddog Monitro egluro'r broses ddethol i'r Pwyllgor.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod pob Cyngor Tref / Cymuned yn cael cyfle i gyflwyno enwebiadau am ddim mwy nag 1 Aelod o'u cyngor ar y Pwyllgor Safonau. Cafwyd saith enwebiad a rhoddwyd pleidlais drwy'r post i'r holl Gynghorau Tref / Cymuned yn gofyn i bob un ohonynt ddewis dim mwy na dau ymgeisydd. Yn dilyn y broses, a gafodd ei gwirio gan Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i bob un o'r Cynghorau Tref / Cymuned am ganlyniad y bleidlais a chadarnhaodd pwy oedd y ddau ymgeisydd llwyddiannus.

Ymataliodd y Cynghorwyr Aled M Jones, Eric W Jones, Bryan Owen, Peter S Rogers a Shaun Redmond rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD cadarnhau enwebiadau ar y cyd y Cynghorau Cymuned trwy benodi'r Cynghorwyr Cymuned canlynol fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau i ddod i rym ar unwaith: -**

**Y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a**

**Y Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Trearddur**

**hyd at yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, neu hyd nes na fydd y rheini a benodir yn aelodau o'r Cyngor Cymuned mwyach, p' un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.**

## 9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH CYNGOR 2018/19

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r gofyn i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD:** -

- **Na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall, heblaw bod y Cyngor llawn yn defnyddio ei ddisgresiwn o dan adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 bod ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19 ymlaen yn diystyru taliadau a wneir o dan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (CCGHC).**
- **Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol (efo'r newid sy'n cael ei argymell uchod) yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.**
- **Ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / (Swyddog Adran 151) i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol a hefyd i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau angenrheidiol i reoliadau gostyngiadau'r dreth gyngor wrth ddefnyddio'r ddiystyriaeth ychwanegol o daliadau a wneir o dan CCGHC**

## 10. TREFNIADAU DIRPRWYO I'R CYNGOR FEDRU CYMRYD RHAN YN YR ARCHWILIAD O GEISIADAU AR GYFER PROSIECTAU WYLFA NEWYDD A CHYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU DAN DDEDDF CYNLLUNIO 2008

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017.

Rhoddodd yr Aelod Portffolio (Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd) adroddiad cefndir ar y trefniadau dirprwyo sydd raid wrthynt i'r Cyngor fedru cymryd rhan yn yr archwiliad o'r Prosiect Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, sef rhai y bydd gofyn cael Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar eu cyfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol ar argymhelliad yr Arolygaeth Gynllunio.

Codwyd y cwestiynau canlynol gan yr Aelodau: -

- Holodd y Cynghorydd Nicola Roberts a oedd yna enghreifftiau o ofynion statudol ac anstatudol y prosiectau hyn. Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd trwy ddweud bod Swyddogion wedi cydweithio'n agos ag unigolion sy'n ymwneud â'r prosesau cydsynio ar gyfer datblygiad Hinkley Point C yng Ngwlad yr Haf i fanteisio ar eu profiadau a'u gwybodaeth. Nododd, unwaith y bydd y broses Archwilio yn cychwyn, bydd materion yn symud yn gyflym a dim ond mater o ddyddiau fydd gan Swyddogion i ymateb i faterion a

godwyd yn yr Ymchwiliad. Dywedodd ymhellach y gallai swyddogion (ar ran y Cyngor Sir) hefyd ddymuno ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd gan sefydliadau eraill. Nododd hefyd y bydd Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a chytundeb cyfreithiol Adran 106 yn cael eu trafod gyda'r Cyngor llawn wedi hynny.

- Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones y byddai wedi disgwyl enghreifftiau mwy penodol yn yr adroddiad o ran y dogfennau a fydd yn cael sylw yn y broses GCD. Er yn derbyn y bydd angen rhoi sylw ac ymateb ar fyrder i faterion yn yr Ymchwiliad, gofynnodd a gafodd Swyddogion neu Aelodau Etholedig awdurdod dirprwyedig i ddelio â dogfennau yn ystod datblygiad Hinkley Point C. Ymatebodd yr Aelod Portffolio (Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd) fod angen sefydlu cynllun dirprwyo o'r fath yn y Cyngor hwn sy'n debyg i'r profiadau gyda datblygiad Hinkley Point C. Nododd fod y Cyngor hwn yn ffodus fod y Staff o fewn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn brofiadol ond yr Aelodau Etholedig fydd yn parhau i fod â'r pwerau i wneud penderfyniadau. Rhoddodd y Cynghorydd Aled M Jones esiampl o'r opsiynau y gall y Grid Cenedlaethol eu cynnig e.e. tanddaearu'r llinell bŵer mewn un ardal ac nid mewn ardal arall; felly a fyddai'r awdurdod i wneud penderfyniad o'r fath yn fater i'r Swyddog. Roedd y Cynghorydd Jones o'r farn fod hyn yn annheg ac yn annerbyniol a dylai fod yn benderfyniad gwleidyddol.

  Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 101, Paragraff 1 (a)(b) sy'n ymwneud â dirprwyo awdurdod i Swyddogion mewn perthynas â'r mater hwn '... ... *gall awdurdod lleol drefnu cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau gan Swyddog o'r Awdurdod Lleol neu gan Bwyllgor neu Is-bwyllgor'.* Dywedodd na ellir rhoi pŵer dirprwyedig i un Aelod Etholedig er y gellid ei roi i Bwyllgor neu Is-bwyllgor ond ni fyddai hynny'n goresgyn y mater brys / amseru gan y byddai'n parhau i gymryd wythnos i gynnull Pwyllgor.

  Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mai Mr Andrew Goodchild fu'n arwain y broses ar ran yr awdurdodau lleol yng Ngwlad yr Haf yn ystod y broses gydsynio ar gyfer Hinkley Point C. Awgrymodd y gellid gwahodd Mr Goodchild i fynychu Sesiwn Briffio Aelodau yn y dyfodol i roi gwybod am ei brofiadau. Cytunodd yr Aelodau i ofyn i Mr Goodchild fynychu Sesiwn Friffio.

- Holodd y Cynghorydd K P Hughes a oedd gan Lywodraeth Cymru rôl o fewn y broses GCD. Ymatebodd yr Aelod Portffolio (Datblygu Economaidd) mai Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Lleol fyddai'r prif ran-ddeiliaid ac y cynhelid cyfarfodydd a deialog rheolaidd. Pwysleisiwyd fod gan yr Awdurdod hwn rôl bwysig i'w chwarae gan mai gogledd yr Ynys ac Ynys Môn a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y Prosiect Wylfa Newydd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Dirprwyo i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd, yr awdurdod i gynnal pob trafodaeth ynghylch budd cymunedol anstatudol ac os yw amser yn brin (yn ei barn hi), i wneud pob penderfyniad sy'n berthnasol i drafodaethau o'r fath ynghylch neu'n codi o naill ai Prosiect**

**Cysylltiad Gogledd Cymru gan y Grid Cenedlaethol neu Brosiect Adeiladu Niwclear Wylfa Newydd, neu’r ddau ohonynt;**

- **Gwyro oddi wrth y polisi dwyieithrwydd ar gyfer dogfennau, sylwadau a chyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu os yw’n fater pwysig, neu oherwydd amserlenni, os yw’n amhosib i Swyddogion gydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor ac os yw’r Prif Weithredwr yn cymeradwyo gwyro oddi wrth y polisi yn y fath fodd. Noder fodd bynnag, y bydd yr holl ddogfennau ar gael yn yr iaith Gymraeg;**
- **Dirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd, yr hawl i gyflawni’r holl swyddogaethau statudol o fewn y Cyngor o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel yr Awdurdod Lleol a’r Awdurdod Cynllunio ynghylch neu’n deillio o’r Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru gan y Grid Cenedlaethol neu’r Prosiect Adeiladu Niwclear Wylfa Newydd neu’r ddau;**
- **Cymeradwyo y gall y dirprwyaethau a gynigir uchod ac unrhyw gamau a gymerir oddi tanynt gael eu dirprwyo ymhellach i unrhyw Swyddog o’r Cyngor gan y Swyddogion y dirprwywyd y pwerau iddynt.**

**11. ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL 2018**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas ag adolygiad o’r etholaethau seneddol a chynigion diwygiedig 2018.

Gan na fydd y Comisiwn Ffiniau yn derbyn sylwadau ar ôl 11 Rhagfyr, 2017 ac yn wyneb y ffaith fod y Cyngor Sir yn cyfarfod ar 12 Rhagfyr, roedd ymateb wedi ei baratoi mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau yn ail-gadarnhau gwrthwynebiad y Cyngor hwn i'r cynnig diwygiedig. Dosbarthwyd copi o'r ohebiaeth yn y cyfarfod a bydd hefyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor .

**PENDERFYNWYD ail-gadarnhau gwrthwynebiad y Cyngor Sir i gynigion i newid etholaeth Seneddol Ynys Môn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**